



Canllawiau ar gyfer Arholiadau Allanol

CYN YR ARHOLIAD

- *Dylech wybod dyddiad ac amser pob un o'ch arholiadau, os yn ansicr, ffoniwch yr ysgol.*
- *Bydd rhan fwyaf o'r arholiadau boreol yn dechrau am 9 o'r gloch a'r prynhawn yn dechrau am 1 o'r gloch.*
- *Ar ddiwrnod yr arholiad, os ydych yn teimlo'n sâl, ceisiwch ddod i'r arholiad (fe wnewn drefniadau arbennig ar eich cyfer chi). Os ydych yn rhy sal i ddod, yna ffoniwch yr ysgol mewn da bryd ac fe fydd angen llythyr meddyg arnoch.*
- *Os na fyddwch yn medru mynychu'r arholiad fe fyddwch yn derbyn bil am yr arholiad a chofiwch bod y costau erbyn hyn wedi dwbli. Llythyr meddyg yn unig sy'n esgusodi peidio dod i arholiad.*
- *Rhaid i chi fod mewn gwisg ysgol lawn.*
- *Byddwch yn cael eich cofrestru yn eich ystafell arholiad felly nid oes angen arwyddo i mewn.*

YN YSTOD YR ARHOLIAD

- *Dim camymddwyn o unrhyw fath, gallwch gael eich diarddel o'ch pynciau i gyd.*
- *Dim siarad. Codi llaw yn unig i dderbyn sylw.*
- *Dilyn cyfarwyddiadau'r Goruchwylwyr bob amser.*
- *Offer cywir, chewch chi ddim benthyg.*
- *Unwaith y byddwch yn yr ystafell arholiad, byddwch yn aros am yr arholiad i gyd os nad oes trefniant ymlaen llaw gyda'r Swyddog Arholiadau gyda chi.*
- *Sicrhewch eich bod wedi rhoi eich ffonau symundol, l'pod ac ati yn y bocsy yn yr ystafell arholiad cyn cychwyn yr arholiad. Os bydd rhain yn cael eu darganfod yn eich meddiant yn ystod yr arholiad, gallai olygu y byddwch yn cael eich diarddel o'r arholiad a'r cymhwyster yn gyffredinol.*
- *Cyfrifiannell – cadwch at y rheolau. Dim clawr, dim sŵn, dim byd wedi storio yn y cof.*
- *Poteli Dŵr – poteli clir heb ddim ysgrifen tu allan.*
- *Câs pensiliau clir, plastig yn unig.*

COFIWCH RYDYM NI YMA I HELPŪ, FELLY DEWCH I SIARAD Â NI OS OES ANGEN